

Annwyl riant/ warcheidwad

Mae hanner tymor cyntaf y flwyddyn academiaidd wedi rhuthro heibio a hoffwn fanteisio at y cyfle i ddiolch i chi am bob cefnogaeth. Dyma rhai pwyntiau i'w nodi.

1. Noson setlo mewn.

Braf gweld disgyblion Blwyddyn 7 wedi ymgartrefu mor ddi-ffwdan yn eu hysgol newydd. Felly hefyd disgyblion blynyddoedd 10 a 12 wrth iddynt fynd i'r afael â'u cyrsiau newydd. Edrychwn ymlaen at eich gwahodd i'r noson setlo mewn nos lau, Tachwedd 7fed. Bydd mwy o fanylion i ddilyn.

2. Presenoldeb

Gofynnaf i chi gyd-weithio gyda'r ysgol er mwyn cadw safonau uchel o bresenoldeb. Fel y gwyddoch mae tystiolaeth yn dangos bod presenoldeb isel yn effeithio'n negyddol ar gynnydd plentyn. Dilynwch drefniadaeth yr ysgol o ffonio i fewn bob bore os yw'ch plentyn yn absennol os gwelwch yn dda. Gair i'ch hatgoffa hefyd nas awdurdodir gwyliau yn ystod tymor ysgol.

3. Trefniadau cyrraedd a gadael yr ysgol.

Mae pawb yn ymwybodol o brysurdeb yr ardal o amgylch yr ysgol beth cyntaf yn y bore ac ar ddiwedd y dydd ysgol. Er mwyn sicrhau diogelwch pob unigolyn, gofynnir yn garedig i chi beidio ag aros i ollwng neu godi'ch plentyn wrth gât ffyrnt yr ysgol (ger y dderbynfa) ond i fynd i fyny i'r maes parcio. Cymrwch ofal hefyd i beidio â pharcio ar y ffordd o Stryd Marged i fyny at gât yr ysgol. Mae'n gyfyng iawn yn y rhan hon a nifer o ddigybllion yn cerdded ar hyd y plamant.

4. Cyswllt â rhieni

Mae'n prosiect newydd o drefnu gweithdai rhwng yr ysgol a chi fel rhieni wedi cychwyn yn arbennig o bositif. Diolch i bawb a fynychodd y gweithdai cyntaf fis Medi. Cynhelir dau weithdy arall ar Hydref 22ain am 9 y bore a 5 y prynhawn. Testun y gweithdai hyn fydd y dulliau o gyfathrebu sydd gennym ar waith rhwng yr ysgol a'r cartref. Bydd croeso mawr i chi i ddod i rannu syniadau. Bydd dished ar gael i bawb! Dewch yn llw! Mae newyddion cyffrous gyda ni hefyd am ein ap newydd ! Rydym wedi rhyddhau ap Rhiant SIMS newydd gyda chyfoeth o nodweddion i wella cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol. Mae ap Rhiant SIMS yn disodli'r ap Xpressions blaenorol ar gyfer rhieni. Os nad ydych eto wedi derbyn côd trwy e-bost neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ar sut i ddadlwytho'r ap, ewch i hafan gwefan yr ysgol (www.dyffrynaman.org) i gael manylion llawn. Fel arall, cysylltwch â'r ysgol i gael cefnogaeth.

5. Noson Llythrennedd a Rhifedd blynyddoedd 7, 8 a 9

Cynhelir noson i drafod sut y medrwy'n gynorthwyo'ch plentyn i ddatblygu ei sgiliau llythrennedd a rhifedd nos lau Hydref 24ain . Bydd hwn yn gyfle gwerthfawr i chi drafod ymhellach unrhyw ofidiau a chael blas o'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r sgiliau hyn yn angenrheidiol er mwyn i'ch plentyn allu gwneud cynnydd da ar draws y cwricwlwm.

5. Ymweliad Estyn

Rydym yn edrych ymlaen i groesawu tîm o arolygwyr Estyn i'r ysgol fore Llun Tachwedd 4ydd -

7fed. Gobeithio i chi gael cyfle i lenwi'r holiadur ar lein. Os na wnaethoch, peidiwch â phoeni gan fod cyfarfod yn Neuadd yr ysgol nos Lun, Tachwedd 4ydd 2019 am 5 o'r gloch i rieni a gwarcheidwaid gyda'r arolygwyr. Edrychwn ymlaen i'ch croesawu ar y noson.

6. Cynllun Datblygu'r Ysgol 2019-20

Mae'r ysgol wedi arfarnu perfformiad llynedd ac wedi rhestri blaenoriaethau er mwyn gwneud cynnydd pellach yn ystod y flwyddyn academiaidd hon. Isod gweler flaenoriaethau'r ysgol. Mae copi llawn ar gael ar gais trwy gysylltu â'r ysgol. Os oes unrhyw sylwad gennych, cofiwch godi'r ffôn ataf. Diolch.

1. Gwella cynnydd disgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 4 a 5.
2. Datblygu lles ac agweddau at ddyngu ein holl ddisgyblion
3. Peilota elfennau o gwricwlwm CA3 wrth i'r ysgol baratoi at gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru 2022.
4. Datbygu ansawdd y dysgu a'r addysgu gan ddarparu cyfleoedd buddiol i ddysgwyr wella eu sgiliau rhifedd a digidol ar draws y cwricwlwm..
5. Datblygu system dracio i adnabod y sgiliau sydd angen eu datblygu er mwyn cefnogi dysgwyr i wneud cynnydd
6. Datblygu ansawdd arweinyddiaeth er mwyn gwella prosesau hunan-arfarnu ac ateblorwydd.

Mwynhewch seibiant yr hanner tymor!



Nerys Nicholas
Pennaeth